

### ***Beth yw Guess Whorl?***

Yn debyg i Guess Who, mae Guess Whorl yn gêm o gardiau cystadleuol lle mae chwaraewyr yn cymryd tro gofyn cwestiynau i'w gilydd am nodweddion adnabod. Amcan y gêm yw cyfrifo pa rywogaeth o Falwod Dwr Croyw Prydeinig mae'r chwaraewr arall wedi dewis, gan ddefnyddio proses o ddilead a gan ofyn cwestiynau fel; "Ydy'r gragen y falwoden yn bigfain?" ac "Oes patrymau lliwgar ar gragen y falwoden?".

Cafodd Guess Whorl ei greu i weithio fel offeryn addysgiadol. Wrth chwarae'r gêm, mae chwaraewyr yn dysgu am y gwahaniaethau rhwng rhywogaethau o falwod dwr croyw Prydeinig a sut i gyfrifo a disgrifio'r gwahaniaethau yma fel tacsonomydd.

### ***Y rheolau...***

Mae Guess Whorl yn addas i chwaraewyr o bob oedran a chefnidir. Dim ond dau chwaraewr sydd angen i chwarae a dyle bob chwaraewr gael y canlynol:

- a. Copi o'r Guess Whorl Playing Cards.
- b. Copi o'r Species Cards

Mae'r templedi ar gyfer y cardiau yma ar y ddogfen PDF 'Guess Whorl Card Decks'. 17 Guess Whorl Playing Card sydd. I ddechrau'r gêm dyle'r chwaraewyr gosod ei gardiau ar y llawr o'i flaen, **yn wynebu i fyny** (fel isod).



Mae rhaid i bob chwaraewr dewis un Species Card ar hap (17 opsiwn sydd). Mae'r Species Cards yn edrych bron yn union fel y Playing Cards. Dyle'r chwaraewyr cuddio'r Species Cards o'r chwaraewr arall.

Fel enghraifft, mae Chwaraewr 1 yn ddewis The Nautilus Ram's Horn Species Card.

The image shows a Species Card for 'Nautilus Ram's Horn' (*Gyraulus crista*). The card features a central illustration of the nautilus shell with 'Ridges' labeled. Below the illustration are icons for 'RED BLOOD BREATHING COMMON' (a red drop), 'AIR' (O<sub>2</sub> and a star), and 'Pond' (3mm scale bar). The card is surrounded by four callout boxes:

- Blue box (top left):** Enw'r falwoden yma yw'r Nautilus Ram's Horn. *Gyraulus crista* yw'r enw Lladin.
- Green box (top right):** O uwch ben, mae'r gragen yn wastad ac yn edrych fel olwyn. Wrth edrych o'r ochr, gwelwn ni bod y gragen yn sinistral (gan fod yr agored ar y chwith). Mae'r gragen wedi gorchuddio gyda chribau (wedi labeli), ond nid oes unrhyw batrymau lliwgar.
- Yellow box (bottom left):** Mae'r eiconau yma yn dangos i ni fod gan y falwoden yma gwaed lliw coch, mae'r falwoden yn anadlu mewn dŵr ac mae'r rhywogaeth yn gyffredin ar draws Prydain.
- Red box (bottom right):** Mae'r Nautilus Ram's Horn, sy'n 3mm ar draws, yn byw mewn Pyllau.







Mae'r chwaraewyr yn gofyn cwestiynau, un ar ôl y llall, am nodweddion adnabod er mwyn dyfalu hunaniaeth y rhywogaeth ddirgel cafodd ei ddewis gan y chwaraewr arall (**ar waelod y ddogfen mae rhestr o gwestiynau i ofyn**).

Yn yr enghraifft yma mae Chwaraewr 2 yn gofyn: "Oes gan y gragen yma cribau?". Mae rhaid ateb cwestiwn gyda naill ai **IE** neu **NA**, felly mae Chwaraewr 1 yn ateb "Ie".

Mae Chwaraewr 2 yn deall nawr bod gan y falwoden ddirgel cribau. Mae Chwaraewr 2 yn **troi drosodd** pob carden sy'n dangos llun o falwoden **heb** gribau.

Mae Chwaraewr 1 yn cael siawns wedyn i ofyn cwestiwn, a dyma sut mae'r gêm yn parhau. Mae chwaraewyr yn parhau i ofyn cwestiynau am nodweddion adnabod tan fod gan un o'r chwaraewyr dim ond un cerdyn ar ôl. Enillydd y gêm yw'r chwaraewr cyntaf i ddyfalu pa rywogaeth o falwoden cafodd ei ddewis gan y chwaraewr arall.

Mwynhewch! Gadewch i ni wybod os ydych chi'n hoffi'r gêm trwy @CardiffCurator a gyda'r #NatureOnYourDoorstep.

Cwestiwn	Opsionau	
Ydy'r gragen yn lliwgar.....?	<b>IE</b>	<b>NA</b>
Ydy'r falwoden yn byw mewn....?	<i>Pond</i> <b>Green</b> <i>houses</i> <b>Salt</b> <i>marshes</i> <i>Lake</i> <i>River</i>	
Ydy'r falwoden yn.....?	<b>Sinistral</b>	<b>Dextral</b>
Oes cribau (ridges) ar y gragen..?	<b>IE</b>	<b>NA</b>
Ydy'r gwaed yn lliw.....?	 <b>BLUE</b>	 <b>RED</b>
Ydy'r falwoden yn anadlu mewn.....?	 <b>AIR</b>	 <b>WATER</b>
Ydy'r gragen yn.....mm ar draws?	<b>3</b>	<b>5</b> <b>10</b> <b>20</b> <b>30</b>
Ydy'r gragen yn siâp.....?	<b>Pigfain</b>	<b>Gwastad</b>
Ydy'r falwoden yn.....ym Mhrydain?	 <b>COMMON</b>	 <b>RARE</b>

Dyma rhestr o'r cwestiynau i chwaraewyr ofyn. 22 cwestiwn gwahanol sydd. Cofiwch, mae rhaid ateb pob cwestiwn gyda **IE** neu **NA**.